Mae etholwr yn rhoi cerdyn pleidleisio i chi heb enw na chyfeiriad? p 31

Anfonir cardiau pleidleisio fel hyn i etholwyr a gofrestrwyd yn ddienw. Peidiwch â gofyn am enw a chyfeiriad yr etholwr. Dilynwch y weithdrefn ar gyfer cyflwyno papurau pleidleisio i etholwyr dienw.

Mae etholwr am ddychwelyd eu pleidlais drwy'r post i'r orsaf bleidleisio? p 25

Gwiriwch fod y bleidlais drwy'r post i'r etholaeth. Os nad ydyw, neu os ydych yn ansicr, cyfeiriwch y pleidleisiwr at swyddfa'r etholiad. Os ydyw, rhowch hi yn y llestr a ddarparwyd.

Mae person yn gofyn i gael pleidleisio ar ran rhywun sydd wedi dioddef sefyllfa feddygol frys? p 27

Cyflwynwch bapur pleidleisio dim ond y'i penodwyd yn swyddogol fel dirprwy brys. Os nad ydynt, eglurwch y gellir penodi dirprwyon brys hyd at 5pm, a chyfeiriwch hwy at y Swyddog cofrestru Etholiadol am fwy o fanylion ar y broses hon.

Rydych chi, neu rywun arall, yn amau nad y person sy'n gwneud cais am bapur pleidleisio yw'r person y maent yn honni bod? pp 29–30

Cyn – a dim ond cyn – cyflwyno papur pleidleisio, gall y Swyddog Llywyddu ofyn y cwestiynau a ragodwyd. Mae hawl gan asiantau fynnu bod Swyddogion Llywyddu yn gofyn y cwestiynau hyn. Os cânt eu hateb yn foddhaol, rhaid cyflwyno papur pleidleisio cyffredin. Ni ellir gwneud ymholiadau pellach ynghylch hawl rhywun i dderbyn papur pleidleisio.

Mae aflonyddwch difrifol (e.e. tân, llif, ac ati)? p 38

Peidiwch â rhoi diogelwch unrhyw un mewn perygl. Os yw'n ddiogel gwneud hynny, sefydlwch orsaf bleidleisio newydd gerllaw. Rhowch wybod i swyddfa'r etholiad.

Manylion cyswllt

Os ydych yn ansicr am unrhyw rai o'r gweithdrefnau a ddisgrifir yn y llawlyfr, neu os oes angen i chi gysylltu â swyddfa'r etholiad am unrhyw reswm arall, cysylltwch â:

Cefnogi etholiad cyffredinol Seneddol y DU ym Mhrydain Fawr

Y Comisiwn Etholiadol

Canllaw cyflym i staff gorsaf bleidleisio

Dylid defnyddio'r canllaw hwn ochr yn ochr â *Llawlyfr i staff gorsaf bleidleisio* y Comisiwn. Mae'r cyfeiriadau tudalennau yn y canllaw hwn yn dangos lle y gellir cael gwybodaeth fanylach yn y llawlyfr.

Pwy all bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio? pp 13–14

Mae llythrennau yn ymyl cofnod etholwr ar y gofrestr yn pennu a oes hawl ganddynt bleidleisio yn yr etholiad ai peidio. Dim ond yr etholwyr canlynol **ddylid** rhoi papur pleidleisio iddynt yn yr orsaf bleidleisio:

Llythrennau	Pwy
Dim llythrennau	etholwyr cyffredin
Dyddiad ar neu cyn diwrnod y pleidleisio	etholwyr fydd yn dod yn 18 oed ar neu cyn diwrnod y pleidleisio
Dim llythrennau + **N**	etholwyr a gofrestrwyd yn ddienw
F neu **F**+**N**	etholwyr tramor

Pwy na all bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio? p 14

Ni ddylid rhoi papurau pleidleisio yn yr orsaf bleidleisio i'r etholwyr canlynol:

Llythrennau	Pwy
Dyddiad ar ôl diwrnod y pleidleisio	etholwyr na fyddant yn 18 oed tan ar ôl diwrnod y pleidleisio
A neu **A**+**N**	pleidleiswyr drwy'r post
E neu **E**+**N**	arglwyddi tramor
G neu **G**+**N**	dinasyddion penodol aelod wladwriaethau'r UE
K neu **K**+**N**	dinasyddion penodol aelod wladwriaethau'r UE
U neu **U**+**N**	dinasyddion penodol aelod wladwriaethau'r UE
L neu **L**+**N**	arglwyddi

Beth yw'r broses bleidleisio arferol? pp 12–15

Cam 1 – Gwirio'r pleidleisiwr	Cyfarchwch yr etholwr a gofyn iddynt gadarnhau eu henw a'u cyfeiriad.
	Cadarnhewch eu bod yn gymwys i bleidleisio drwy wirio eu cofnod ar y gofrestr.
	Tynnwch linell yn ymyl (ond nid trwy) cofnod y pleidleisiwr yn y gofrestr.
	Darllenwch eu henw, rhif etholwr a chyfeiriad dosbarth pleidleisio yn uchel o'r gofrestr etholwyr.
Cam 2 – Cyflwyno'r papur pleidleisio	Ysgrifennwch y rhif etholwr ar y rhestr rhifau cyfatebol (CNL) yn ymyl y rhif papur pleidleisio perthnasol.
	Sicrhewch fod y papur pleidleisio i'w gyflwyno yn dwyn y marc swyddogol.
	Plygwch y papur pleidleisio, a'i roi i'r pleidleisiwr **heb ei blygu** er mwyn iddynt allu gweld yr holl ymgeiswyr ar y papur.
Cam 3 – Pleidleisio	Mae'r pleidleisiwr yn marcio'r papur pleidleisio ym mhreifatrwydd y both pleidleisio.
	Yn union cyn i'r pleidleisiwr osod y papur pleidleisio yn y blwch pleidleisio, dylent blygu'r papur pleidleisio a dangos rhif y papur pleidleisio a'r marc adnabod unigryw ar gefn y papur pleidleisio i'r Swyddog Llywyddu.

Beth os...

Yw'n 7am ac nid yw deilydd yr allwedd wedi cyrraedd? p 6
Ceisiwch gysylltu â deilydd yr allwedd. Os bydd angen, gwnewch drefniadau eraill e.e. sefydlu gorsaf bleidleisio dros dro yng nghefn car. Rhowch wybod i swyddfa'r etholiad.

Mae etholwr yn difetha ei bapur pleidleisio? p 15
Canslwch y papur pleidleisio a ddifethwyd. Gosodwch e yn yr amlen briodol, ysgrifennwch canslwyd ar y CNL a chyflwynwch bapur pleidleisio arall i'r etholwr.

Ni all etholwr gael mynediad i'r orsaf bleidleisio? p 20
Ewch â'r papur pleidleisio allan i'r etholwr ar ôl rhoi gwybod i unrhyw asiantau sy'n bresennol. Sicrhewch gyfrinachedd y bleidlais bob amser.

Bydd angen cymorth ar etholwr anabl? pp 20–22
Cynigiwch gymorth. Eglurwch pa gefnogaeth sydd ar gael.

Mae'r person yn gofyn am bapur pleidleisio yn ymddangos ar y gofrestr fel rhywun sydd wedi pleidleisio eisoes? pp 30, 36
Gwiriwch a oeddent wedi penodi dirprwy. Os na, dilynwch y broses ar gyfer pleidleisiau a gyflwynwyd. Gofynnwch y cwestiynau a ragnodwyd cyn cyflwyno papur pleidleisio a gyflwynwyd. Peidiwch â chyflwyno papur pleidleisio a gyflwynwyd os na atebir y cwestiynau yn foddhaol.

Mae etholwr gyda'r marciwr A ar y gofrestr yn dweud nad oeddent wedi gwneud cais i bleidleisio drwy'r post? pp 29, 36
Peidiwch â chyflwyno papur pleidleisio cyffredin. **Os ydynt wedi derbyn eu pleidlais drwy'r post:** anogwch hwy i'w dychwelyd i'r orsaf bleidleisio neu at y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) erbyn 10pm. Os nad ydynt am ei ddychwelyd, dilynwch y weithdrefn ar gyfer papurau pleidleisio a gyflwynwyd. **Os nad ydynt wedi derbyn eu pleidlais drwy'r post:** os yw cyn 5pm, cyfeiriwch hwy at y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) am un newydd; os yw ar ôl 5pm, neu os nad ydynt am gael un newydd, dilynwch y weithdrefn papurau pleidleisio a gyflwynwyd.
Cofiwch bob amser i wirio bod y cwestiynau a bennir yn cael eu hateb yn foddhaol cyn cyhoeddi papur pleidleisio dendro.

Mae etholwr yn honni ei fod wedi colli neu heb dderbyn ei bleidlais drwy'r post? pp 29, 36
Cyn 5pm: cyfeiriwch hwy at y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) am un newydd. **Ar ôl 5pm:** dilynwch y weithdrefn papurau pleidleisio a gyflwynwyd. Gofynnwchy cwestiynau a ragnodwyd cyn cyflwyno papur pleidleisio a gyflwynwyd. Peidiwch â chyflwyno papur pleidleisio a gyflwynwyd os nad yw'r cwestiynau yn cael eu hateb yn foddhaol.

Mae pleidleisiwr yn gofyn sut y caiff ASau eu hethol? p 2
Etholir ASau o dan y system y cyntaf i'r felin. Mae gan bleidleiswyr un bleidlais y maent yn eu bwrw dros yr ymgeisydd o'u dewis. Etholir yr ymgeisydd â nifer mwyaf o bleidleisiau yn yr etholaeth i Senedd y DU.

Nad yw person ar y gofrestr nac unrhyw rai o'r hysbysiadau? pp 23–24; pp 28–39
Peidiwch â chyflwyno papur pleidleisio. Cyfeiriwch y pleidleisiwr at y Swyddog Cofrestru Etholiadol os ydynt yn mynnu eu bod wedi cofrestru.